| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Pensiynau |
| **Dyddiad:** | 21/10/2021 |
| **Teitl:** | Amserlen Prisiant 2022 |
| **Awdur:** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |
| **Pwrpas:** | Ar gyfer gwybodaeth yn unig |

## 1. Cyflwyniad

Yn unol â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rhaid prisio'r Gronfa Bensiwn bob 3 blynedd.

Pwrpas prisiad yw asesu sefyllfa ariannol y Gronfa (h.y. a yw asedau'r Gronfa yn ddigonol i fodloni ei rhwymedigaethau rhagamcanol); nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer chwyddiant ac enillion buddsoddiad yn y dyfodol ac adolygu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel sy'n ddigonol i sicrhau hyfywedd parhaus y Gronfa a gellir eu diwygio o ganlyniad i bob prisiad. Sylwch fod cyfraddau cyfraniadau aelodau wedi'u gosod yn rheoliadau'r Cynllun ac nad ydynt yn destun adolygiad ar y prisiad.

Bydd y prisiad nesaf yn seiliedig ar aelodaeth ar 31 Mawrth 2022 gyda chyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

## 2. Amserlen y Prisiant

Er mwyn cwblhau'r prisiad mewn ar amser mae'n bwysig gosod amserlen. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol gyda Hymans Robertson i drafod yr amserlen ar gyfer prisiad 2022. Dyma'r dyddiadau arfaethedig:

Mae'r dyddiadau mewn melyn yn gamau i'w cymryd gan Hymans Robertson, mae'r dyddiadau mewn glas yn gamau i'w cymryd gan y gronfa ac mae'r dyddiadau mewn oren yn gamau i'w cymryd gan y ddwy ochr.

### 2.1 Rhagdybiaethau

Mae'r gronfa'n gyfrifol am ddewis y rhagdybiaethau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo darpariaethau technegol y prisiad yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y gall y cyflogwr gefnogi ystod o ganlyniadau niweidiol tebygol. Gofynnir am gyngor gan Hymans Robertson ar wneud rhagdybiaethau perthnasol cyn cyflwyno'r rhagdybiaethau i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 i'w cymeradwyo.

| **Rhagdybiaethau** | |
|---|---|
| Paratoi papur rhagdybiaethau drafft i'w drafod gyda swyddogion | Tachwedd 2021 |
| Trafod rhagdybiaethau arfaethedig gyda swyddogion | Rhagfyr 2021 |
| **Cwblhau'r papur rhagdybiaethau terfynol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor** | **Ionawr 2022** |

### 2.2 Data

Mae cael data cywir yn hanfodol i sicrhau bod canlyniadau'r prisiant mor gywir â phosibl i bob cyflogwr. Mae angen i'r gronfa sicrhau bod y gronfa ddata cyflogwyr yn gyfredol a bod data aelodaeth mor gywir â phosibl:

| **Data** | |
|---|---|
| Cronfa ddata cyflogwyr | |
| Adolygu a diweddaru'r gronfa ddata'r cyflogwyr | Ionawr / Chwefror 2022 |
| Cyflwyno'r gronfa ddata i Hymans Robertson | Mawrth 2022 |
| Adolygiad lefel uchel o fanylion cyflogwyr | Ebrill 2022 |
| Diweddariadau i gronfa ddata'r cyflogwyr | Mai / Mehefin 2022 |
| Data cyflogwr newydd | |
| Gwirio'r holl ddata cyflogwyr newydd a gyflwynwyd i Hymans | Ionawr 2022 |
| Darparu data sefyllfa agoriadol cyflogwyr newydd | Chwefror 2022 |
| Creu sefyllfa agored cyflogwyr Newydd / Diweddaru'r Hwb a thaenlen | Ebrill 2022 |
| Gwirio sefyllfa agor y cyflogwyr newydd | Mai / Mehefin 2022 |
| Data aelodaeth y prisiant | |
| Uwch lwytho echdyniad o ddata'r gronfa gyfan | Mehefin 2022 |
| Adolygu dilysiadau a datrys unrhyw faterion data | Mehefin 2022 |
| Data'r prisiant yn cael ei gyflwyno i Hymans Robertson | Mehefin 2022 |
| **Cymeradwyo data glân** | **Gorffennaf 2022** |

### 2.3 Cyfrifiadau'r Gronfa Gyfan

Unwaith y bydd y rhagdybiaethau wedi'u gosod a'r data wedi cael ei gyflwyno, y cam nesaf yw i Hymans Robertson weithio allan sefyllfa'r gronfa gyfan ar gyfer prisiant 2022.

| **Cyfrifiadau'r gronfa gyfan** | |
|---|---|
| Paratoi dogfen drafod (canlyniadau'r gronfa gyfan yn unig) | Gorffennaf 2022 |
| Trafod canlyniadau'r gronfa gyfan gyda swyddogion trwy alwad 'Teams' | Awst 2022 |
| Cwblhau'r canlyniadau'r gronfa gyfan | Awst 2022 |

### 2.4 Cyfrifiadau cyflogwyr unigol

Ar ôl i'r cyfrifiadau cronfa gyfan gael eu cyflawni, y cam nesaf yw cyfrifo canlyniadau'r cyflogwr unigol. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i swyddogion y Gronfa ar ffurf ddrafft, gydag addasiadau yn cael eu cyflawni (os oes angen), cyn eu cyflwyno i'r cyflogwyr.

| **Cyfrifiadau cyflogwyr unigol** | |
|---|---|
| Paratoi canlyniadau cyflogwyr unigol i'w rhoi i swyddogion | Medi 2022 |
| Trafod canlyniadau cyflogwyr yn fanwl (gan gynnwys adolygiad o ddyraniad y strategaeth fuddsoddi) | Medi 2022 |
| Ymchwilio i unrhyw faterion data a godwyd gan ddadansoddiad canlyniadau cyflogwyr | Medi 2022 |

| | |
|---|---|
| | |
| **Diweddaru canlyniadau cyflogwyr ar ôl trafodaeth** | **Medi 2022** |

## 2.5 Adrodd

Cam olaf y prisiant yw paratoi'r adroddiad prisiant terfynol a thystysgrif cyfraddau ac addasiadau (C+A) a rhannu'r canlyniadau hyn gyda'r cyflogwyr. Bydd angen diweddaru'r Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) hefyd.

| **Adrodd** | |
|---|---|
| Paratoi DSC drafft | Awst / Medi 2022 |
| Paratoi a chyhoeddi amserlenni canlyniadau cyflogwyr | Hydref 2022 |
| Cyhoeddi canlyniadau cyflogwyr a DSC ar gyfer ymgynghori | Hydref 2022 |
| **Fforwm cyflogwyr** | **Hydref 2022** |
| Cau ymgynghoriad DSC y cyflogwyr | Rhagfyr 2022 |
| Paratoi'r drafft terfynol o'r DSC | Ionawr 2023 |
| Paratoi papurau pwyllgor - canlyniadau terfynol y gronfa gyfan a chyflogwyr | Chwefror 2023 |
| Cadarnhad o holl gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr | Chwefror 2023 |
| Paratoi'r adroddiad prisiant terfynol a thystysgrif C+A | Mawrth 2023 |
| Adolygu adroddiad prisiant a thystysgrif C+A | Mawrth 2023 |
| **Cymeradwyo'r prisiant** | **Mawrth 2023** |